



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

COLEG GŴYR ABERTAWE

BWRDD Y GORFFORAETH

**ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER Y
FLWYDDYN A DDAETH I BEN
31 GORFFENNAF 2020**

ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETHU 2019/20

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgareddau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe yn ystod 2019-20.

2. Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu

2.1 Mae Rheoliadau (Llywodraeth) Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe 2010 (fel y'u diwygiwyd gan y Gorfforaeth ym mis Mehefin 2015) yn darparu'r Offeryn Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu ar gyfer Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe.

2.2 Cafodd y rhain eu diwygio ym mis Mawrth 2020 i ganiatáu ar gyfer cyfranogiad mewn cyfarfodydd yn electronig, ac i fodloni'r gofyniad cworwm lle roedd aelodau'n bresennol yn electronig.

3. Is-ddeddfau

3.1 Cymeradwyodd Bwrdd y Gorfforaeth ei Is-ddeddfau yn ei gyfarfod cyntaf ar 14 Mehefin 2010, a chafodd y rhain eu diweddarau ar 23 Mehefin 2011, 25 Mehefin 2012 a Mawrth 2014 ac fe'u diwygiwyd ym mis Chwefror 2015, ac eto ym mis Ionawr 2020.

3.2 O ganlyniad i'r adolygiad ym mis Ionawr 2020 cafodd y diwygiadau canlynol (mewn print bras isod) eu cynnig a'u cymeradwyo wedi hynny gan Fwrdd y Gorfforaeth:

- Dylai Paragraff 1.3 ddarllen: *Disgwylir i aelodau fod yn bresennol mewn dim llai na 60% o holl gyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth, a Phwyllgorau **Ile maen nhw'n aelod**, a gynhelir mewn unrhyw flwyddyn academiaidd.*
- Dylai Paragraff 4.2 ddarllen: *Bydd Cadeirydd **y Bwrdd** (neu yn ei absenoldeb yr Is-gadeirydd) yn gweithredu gan ymgynghori â'r Clerc a'r Pennaeth ac yn cymeradwyo'r agenda ar gyfer pob cyfarfod...*
- Dylai Paragraff newydd 4.3 ddarllen: **Bydd Cadeirydd pob Pwyllgor yn gweithredu gan ymgynghori â'r Clerc ac yn cymeradwyo'r agenda ar gyfer pob cyfarfod.**
- Dylai Paragraff 9 ddarllen: *Yn unol â'r Offeryn Llywodraethu bydd y Llywodraeth yn penodi dau aelod sy'n aelodau o staff yn y Coleg. Un o'r aelodau fydd yn aelod o'r staff addysgu, a'r aelod arall fydd yn aelod o'r staff nad yw'n addysgu, **a etholir mewn etholiad sy'n agored i bob aelod o staff, o'r rhai a enwebwyd gan aelod o staff.***
- Paragraff 5 o'r weithdrefn enwebu a phenodi aelodau o staff, dylid ychwanegu: **bydd yr etholiad ar gyfer un o'r swyddi gwag neu'r ddwy yn agored i bob aelod o staff.**
- Paragraff 15 o'r weithdrefn enwebu a phenodi aelodau o staff, dylai'r ail frawddeg ddarllen: **Bydd Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth yn ystyried yr apêl neu'r gŵyn a dod i benderfyniad.**
- Proses ethol myfyriwr-lywodraethwr: dylid symud cyfeiriadau at ddyddiadau yn y trydydd paragraff a'r wythfed paragraff, ac ychwanegu'r

canlynol at y chweched paragraff: ***Yn achos pleidlais gyfartal, bydd y canlyniad yn cael ei benderfynu trwy daflu ceiniog.***

- Paragraff 4.5, dylai'r ail frawddeg ddarllen: *Heblaw am amgylchiadau eithriadol (neu yn unol â'r Is-ddeddfau hyn) ni ddylid **cyflwyno papurau mewn cyfarfod, na'u** cyhoeddi llai na saith diwrnod clir cyn unrhyw gyfarfod lle bydd eu hangen.*

4. Cyfansoddiad Bwrdd y Gorfforaeth

4.1 Mae aelodaeth o'r Bwrdd yn cynnwys 20 aelod gan gynnwys y Pennaeth, dau aelod o staff, a dau fyfyrwr.

4.2 Cafodd dau fyfyrwr eu penodi fel aelodau ym mis Hydref 2019 ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2019-20. Mr Laimis Lisauskas (Llywydd Cangen UCM), a Mr Yaman Mhissen. (Gweler Cofnod 12).

4.3 Roedd y ddau enwebai o'r Cyngor, y Cynghorwyr Sam Pritchard a Des Thomas wedi parhau fel aelodau yn ystod y flwyddyn ac ym mis Mawrth roedd Dinas a Sir Abertawe wedi parhau â'i henwebiad i'r Bwrdd. Roedd dau aelod wedi gorffen ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2019, Mr Colin Cornelius a Mrs Carol Green. Cafodd un aelod ei benodi ar ddechrau'r flwyddyn, Mrs M Leyshon. Roedd un aelod wedi ymddiswyddo, Mrs Chantal Patel.

4.4 Aelodau'r Gorfforaeth

Yr aelodau a wasanaethodd y sefydliad yn ystod 2019-20 oedd:

Dr D Ashelby
Mrs Helen Bjork
Mr C Cornelius, Cadeirydd
Mr M Day
Mr A Donald
Mrs C Green
Mr M Howells
Mr M Jones (Pennaeth)
Mrs M Leyshon (Awst 2019)
Mr L Lisauskas (Llywydd Cangen UCM)
Y Parch. Dr Adrian Morgan
Mr Y Mhissen (Myfyriwr)
Mrs C Patel (Is-gadeirydd) (tan Chwefror 2020)
Y Cyng. S Pritchard
Y Barnwr R Singh
Mrs D Thomas
Y Cyng. D Thomas
Mrs Pam Walters
Mr G Williams
Mrs S Williams
Mae Mr John Britton wedi'i gyd-ethol i'r Is-bwyllgor Prosiectau Cyfalaf.

5. Cadarnhau Cymhwysra

Mae holl Aelodau o Fwrdd y Gorfforaeth yn dangos eu cydymffurfiad â'r meini prawf cymhwysra adeg ymgeisio. Roedd aelodau presennol wedi cadarnhau eu cydymffurfiad parhaus yn ystod mis Awst cyn dechrau blwyddyn academaidd 2019-20.

6. Cylch Gorchwyl

6.1 Adolygwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau yn hydref 2019 a chymeradwywyd mân ddiwygiadau gan y Bwrdd lle bo'n briodol.

6.2 Roedd strwythur pwyllgor 2019-20 ar gyfer Coleg Gŵyr Abertawe heb newid ers y flwyddyn flaenorol ac roedd fel a ganlyn:

- Pwyllgor Archwilio;
- Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd;
- Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol;
 - Is-bwyllgor Prosiectau Cyfalaf
- Pwyllgor Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol;
- Pwyllgor Cymorth i Ddysgwyr;
- Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth;
- Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu.

7. Cofrestr Diddordebau

Mae Cofrestrau o Ddiddordebau yn cael eu cynnal ar gyfer Aelodau o Fwrdd y Gorfforaeth ac Uwch Reolwyr. Mae pob aelod yn adolygu ei gofnod yn flynyddol. Mae'r Cofrestrau ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar gais.

8. Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Gorfforaeth

8.1 Yn ei gyfarfod ar 14 Mehefin 2010 roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi cymeradwyo Cod Ymddygiad i Aelodau o'r Gorfforaeth. Diwygiwyd hwn ym mis Hydref 2013 (Gweler Cofnod 14.4) i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth yn ymwneud â Deddf Llwgrwobrwyo 2010 a datgeliad er budd y cyhoedd (Chwythu'r Chwiban).

8.2 Adolygwyd y Cod Ymddygiad yn 2016-17 i ystyried Cod Llywodraethu Da i Golegau yng Nghymru a chymeradwyodd y Bwrdd nifer o ddiwygiadau. (Gweler cofnod 26.2, Chwefror 2017). Ni wnaed unrhyw newidiadau pellach ac mae disgwyl i'r Cod Ymddygiad gael ei adolygu yn fuan.

9. Chwythu'r Chwiban

9.1 Bydd Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban yn cael ei gynhyrchu gan Glerc y Gorfforaeth a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio erbyn mis Rhagfyr bob blwyddyn.

9.2 Os bydd digwyddiadau chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn,

bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- Nifer y digwyddiadau o chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn;
- Cadarnhad bod pob ymchwiliad i ddigwyddiad wedi'i gynnal gan asesydd dynodedig;
- Canlyniad pob ymchwiliad;
- Cadarnhad bod pob digwyddiad yn cael ei adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Corfforaeth;
- Y camau a gymerwyd o ganlyniad i ymchwiliadau.

9.3 Ni chodwyd unrhyw faterion chwythu'r chwiban yng Ngholeg Gŵyr Abertawe yn ystod 2019-20.

10. Cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth

10.1 Cynhyrchwyd amserlen flynyddol o gyfarfodydd gan y Clerc a'i chytuno gan Fwrdd y Gorfforaeth yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2019 ac yn ystod 2019-20 roedd cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth a chyfarfodydd Pwyllgorau wedi gweithredu yn ôl y calendr a drefnwyd, gyda dau Gyfarfod Arbennig ychwanegol.

10.2 Yn ystod 2019-20 roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi cwrdd ar 9 achlysur ac o leiaf unwaith bob tymor:

- Tymor yr hydref: 17 Hydref 2019; 12 Rhagfyr 2019,
- Tymor y gwanwyn: 13 Chwefror 2020; 17 Mawrth 2020 (Cyfarfod Arbennig); 26 Mawrth 2020
- Tymor yr haf: 14 Mai 2020; 18 Mehefin 2020 a 9 Gorffennaf 2020 (Cyfarfod Arbennig).

10.3 Ers y cyfarfod ar 17 Mawrth mae'r holl gyfarfodydd wedi cael eu cynnal yn electronig ar Microsoft Teams.

10.4 Roedd cworwm gan bob cyfarfod o'r Bwrdd a'r presenoldeb cyfartalog yn y cyfarfodydd a drefnwyd oedd 80%, a 79% yn yr holl gyfarfodydd (yn seiliedig ar nifer benodol yr aelodau sef 20), ac mae hyn yn welliant sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol. (67% 18-19 61% 2016-17, 63% 2015-16, 71% 2014-15, 63% 2013-14).

11. Cyfarfodydd Pwyllgorau

O 17 Mawrth 2020, roedd holl gyfarfodydd y Pwyllgorau wedi cael eu cynnal ar y dyddiadau a drefnwyd ac yn electronig trwy Microsoft Teams. O ganlyniad roedd rhai aelodau wedi ei chael hi'n anodd cyrchu'r cyfarfodydd ond mae'r holl ddata presenoldeb wedi cael eu casglu ac i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad.

12. Y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio

- 12.1 Roedd y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu wedi cwrdd ar y dyddiadau a drefnwyd, sef 15 Hydref, a 21 Ionawr 2020. Cynhaliwyd cyfarfodydd arbennig ar 18 Tachwedd 2019 a 4 Awst 2020. Canslwyd dau gyfarfod 24 Mawrth a 28 Ebrill 2020.
- 12.2 Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cwrdd bum gwaith yn ystod y flwyddyn - 26 Medi 2019, 28 Tachwedd 2019, 5 Mawrth 2020 a 4 Mehefin 2020.
- 12.3 Ym mhob un o'i gyfarfodydd roedd y Pwyllgor wedi trafod yr adroddiadau archwilio mewnol sydd ar gael, cynnydd o ran argymhellion archwilio blaenorol, diweddariadau ar reoli iechyd a diogelwch, a rheoli risg yn y Coleg, rheoli ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a materion diogelu data, a'r gofrestr twyll.
- 12.4 Ymhlith y materion eraill a ystyriwyd roedd: y strategaeth archwilio a'r cynllun archwilio mewnol blynyddol; Diweddariad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (materion Isafswm Pensiwn Gwarantiedig McCloud); adroddiad blynyddol Chwythu'r Chwiban 2018-19; Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Tachwedd 2019 ac archwiliad o'r Datganiadau hynny; yr adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaid y Coleg â'r Memorandwm Ariannol; datganiad caethwasiaeth fodern a masnachu pobl; adolygiad o gofrestrau rhoddion a lletygarwch; Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2018-19; Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch; ac Adroddiad Caffael 2018-19; penodwyd archwilwyr allanol yn y cyfarfod ar 5 Mawrth 2020; diweddariad iechyd a diogelwch ynghylch Covid-19; memorandwm y strategaeth archwilio allanol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 diwrnod 2020; adolygiad o'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau; ac adolygiad o'r rheoliadau ariannol.
- 12.5 Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cwrdd â'r archwilwyr heb i'r rheolwyr fod yn bresennol, ac adolygodd berfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol (Tachwedd 2019). Yn ogystal, ar ôl y broses briodol, fe wnaethant argymhell penodi archwilwyr mewnol am dymor pellach.

13. Hysbysiad o Newidiadau i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

- 13.1 Yn wreiddiol, etholwyd Mr Colin Cornelius yn Gadeirydd y Gorfforaeth ym mis Mehefin 2010 am gyfnod o ddwy flynedd yn gorffen ym mis Gorffennaf 2012. Ym mis Mai 2012 cafodd ei ail-ethol yn Gadeirydd a bu yn y swydd hon am bedair blynedd (hyd at fis Gorffennaf 2016). Cafodd ei ail-ethol yn Gadeirydd y Llywodraethwyr ar 14 Ebrill 2016 am gyfnod o bedair blynedd ac fe wnaeth orffen ei gyfnod yn y swydd ym mis Gorffennaf 2020.
- 13.2 Etholwyd Mrs Chantal Patel yn Is-gadeirydd ar 12 Mai 2016 am gyfnod o bedair blynedd yn dechrau ym mis Mehefin 2016 ac fe wnaeth ymddiswyddo o'r Bwrdd ym mis Chwefror 2020.

- 13.3 Cafodd Mrs Pam Walters ei hethol yn Is-gadeirydd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2020 am gyfnod o bedair blynedd. Cafodd Mr Meirion Howells ei ethol yn Gadeirydd y Bwrdd am gyfnod o bedair blynedd o 1 Awst 2020.

14. Adroddiadau Ariannol/Cyfrifon Rheoli

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi derbyn adroddiadau ariannol a chyfrifon rheoli yn y cyfarfodydd canlynol:

- 17 Hydref 2019: Cyfrifon rheoli ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019;
- 20 Rhagfyr 2019: Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019, a chyfrifon rheoli ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2019;
- 13 Chwefror 2020: Cyfrifon rheoli ar gyfer y pedwar mis a ddaeth i ben 30 Tachwedd 2019
- 26 Mawrth 2020: Effaith coronafeirws; ail-gyllidebu 2019-20; Cyfrifon rheoli chwe mis a ddaeth i ben 31 Ionawr 2020;
- 14 May 2020: Ail-ragolygon 2019-20
- 18 Mehefin 2019: Cyfrifon rheoli 9 mis 30 Ebrill 2020, Rhagolygon ariannol 2020-21

15. Tâl Cydnabyddiaeth Llywodraethwyr

Ni wnaed unrhyw daliadau i Aelodau o Fwrdd y Gorfforaeth yn ystod y flwyddyn, ac eithrio:

- Ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth;
- Cyflog a threuliau a dalwyd i'r Pennaeth mewn cysylltiad â'i gyflogaeth yn y Coleg.

16. Contractau i Gyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau

- 16.1 Gofynnir i'r Bwrdd hysbysu Llywodraeth Cymru o ddyfarniad unrhyw gontractau ar gyfer cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i unrhyw aelod o'r corff llywodraethu am eu gwasanaethau fel aelodau.

- 16.2 Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn Natganiadau Ariannol Blyneddol y Coleg.

17. Bwrdd Academaidd

Nid yw'r Erthyglau Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gorfforaeth sefydlu Bwrdd Academaidd ac ar hyn o bryd nid oes Bwrdd Academaidd Coleg.

18. Hyfforddiant Llywodraethwyr a phresenoldeb mewn digwyddiadau

- 18.1 Roedd y ddau fyfyrwr-lywodraethwr ac un aelod newydd wedi cael hyfforddiant sefydlu ar ddechrau eu cyfnod yn y swydd.

- 18.2 Aeth aelodau i ddigwyddiad Cynllunio Strategol ym mis Mawrth 2020 oedd yn cynnwys datblygiad llywodraethwyr ar y drefn ansolfedd newydd. Yn ogystal, cafodd yr aelodau fynediad at hyfforddiant ar-lein trwy systemau'r Coleg ac fe'u hanogwyd i ddilyn amrywiaeth o gyrsiau ar-lein.
- 18.3 Cafodd aelodau eu gwahodd i fynd i nifer o ddigwyddiadau yn ychwanegol at gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys perfformiadau myfyrwyr a seremonïau gwobrwyo.

19. Hyfforddi'r Clerc

Mynychodd y Clerc (Mrs S Barron) ddigwyddiadau a chyfarfodydd rhwydwaith yn ystod y flwyddyn a pharhaodd â'i datblygiad proffesiynol trwy ymchwil desg, trafodaeth barhaus a chyfraniad parhaus at arfer da trwy rwydweithiau post llywodraethu, hyfforddiant ar-lein wedi'i ddarparu'n fewnol.

20. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- 20.1 Yn unol â'r Cod Llywodraethu Da rhaid i'r Bwrdd fodloni, a dylai anelu at ragori ar, ei gyfrifoldebau statudol dros gydraddoldeb ac amrywiaeth trwy ei gamau a'i ymddygiad ei hun ym mhob agwedd ar ei faterion..
- 20.2 O ran penodiadau i'r Bwrdd mae'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu yn adolygu amrywiaeth ei aelodaeth gyfredol wrth ystyried y llwybrau i'w defnyddio wrth hyrwyddo swyddi gweigion ac wrth ystyried awgrymu aelodau i'w penodi.
- 20.3 Mae aelodau wedi nodi eu bod yn hyderus am gyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

21. Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Da

- 21.1 Cyfeiria'r Cod Llywodraethu Da at ddiwylledd a thryloywder ar ran Bwrdd y Gorfforaeth wrth gynnal ei faterion ac i ba raddau y mae'r Cod wedi'i fabwysiadu.
- 21.2 Mae Llywodraethwyr wedi adolygu cydymffurfriad â'r Cod Llywodraethu Da yn gyffredinol ac yn cydnabod y Cod wrth adolygu prosesau llywodraethu.

Llofnodwyd: Dyddiad:.....

**Cadeirydd y Gorfforaeth
Coleg Gŵyr Abertawe**

Llofnodwyd: Dyddiad:.....

**Clerc y Gorfforaeth
Coleg Gŵyr Abertawe**

Eitem Agenda 11.2.2 a

Pwyllgor Archwilio	% presenoldeb	Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd	% presenoldeb
26 Medi 19	66% (4/6)	19 Tachwedd 19	100%
28 Tachwedd 19	66%	10 Mawrth 20	62% (5/8)
5 Mawrth 19	50%	19 Mai 20	100%
4 Mehefin 19	100%		
Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol	% presenoldeb	Pwyllgor Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol	% presenoldeb
10 Hydref 19	57 (4/7)	11 Tachwedd 19	50
21 Tachwedd 19	100	23 Mawrth 20	83 (5/6)
23 Ionawr 20	86 (6/7)	8 Mehefin 20	67 (4/6)
12 Mawrth 20	57		
11 Mehefin 20	86		
Pwyllgor Cymorth i Ddysgwyr	% presenoldeb	Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu	% presenoldeb
5 Tachwedd 19	62% (5/8)	15 Hydref 19	50
11 Chwefror 20	87% (7/8)	18 Tachwedd 19	83
16 Mehefin 20	87%	21 Ionawr 20	67
		4 Awst 20	50
Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth			
11 Chwefror 20	100%		